UMPA
Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
29ain Chwefror 2024
Wyneb-yn-wyneb a dros Teams

Yn Bresennol
Bayanda Vundamina (BV) - Llywydd a Chadeirydd UMPA
Elain Gwynedd (EG) - Swyddog Diwylliant Cymreig, Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr UMPA
Helen Cooper (HC) - Swyddog Llesiant ac Swyddog-Ymddiriedolwr UMPA
Tiff McWilliams (TMW) - Swyddog Cyfleoedd i Fyfyrwyr ac Ymddiriedolwr UMPA
Anna Simpkins (AS) - Swyddog Materion Academaidd UMPA
Jon Allsopp (JA) - Ymddiriedolwr Allanol UMPA
Alan Roberts (AR) - Ymddiriedolwr Allanol UMPA
Debra Croft (DC) - Ymddiriedolwr Allanol UMPA
Tom Molyneux (TMO) - Ymddiriedolwr Myfyriwr UMPA
Andra Jones (AJ) - Ymddiriedolwr Myfyriwr UMPA
Yn Bresennol
Trish McGrath (TMcG) - Prif Weithredwraig UMPA
Annmarie Evans (AE) - Pennaeth Pobl a Llesiant (cofnodwr)

GWEINYDDU'R CYFARFOD Dechreuodd

BV y cyfarfod gan groesawu Andra Jones, a gafodd ei hethol yn Ymddiriedolwr Myfyrwyr Ôl-raddedig, gan ei chyflwyno.

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb Cafwyd ymddiheuriadau gan Ryan Beasley.

2. **Datgan Buddiannau**
   Ni ddatganwyd buddiannau.
3. Cofnodion y Cyfarfod cynt Cymeradwywyd Cofnodion y Cyfarfod cynt a gynhaliwyd 7fed mis Tachwedd 2023.
   Cymeradwywyd

4. **Materion sy'n Codi**
   Triniwyd unrhyw faterion a godwyd yn eitemau'r agenda.
   Cofnodwyd

STRATEGAETH

5. **Cyllid: Cyfrifon Rheolaeth** Esboniodd Trish y newid yn y ffordd y mae'r gyllid am gael ei chyflwyno a gofyn i'r bwrdd roi gwybod a fyddai'n well ganddynt ei chyflwyno mewn modd gwahanol neu fod eisiau ychwanegu unrhyw beth arall. Yn gyffredinol, mae'r ffigurau yn dangos colled o £49k, fe'i trafodir ar eitem 12 o'r agenda.
   Cofnodwyd

6. **Cynnydd Dangosyddion Perfformio Allweddol Darparodd TM ddiweddariad o'r Dangosyddion Perfformio Allweddol.** Cafwyd trafodaeth ynghylch hyfforddi aelodau pwyllgor a sicrhau fod hyfforddiant yn cael ei gwblhau. Mae TM am drafod hyn ymhellach gyda'r Tîm Cyfleoedd. **Pwynt Gweithredu - TM**

7. **Adroddiad y Brif Weithredwraig** Triniodd TM ei diweddariad fel y Brif Weithredwraig a oedd yn cynnwys Pobl, Cyllido a Chyllid, Mannau, Arweinyddiaeth y Brifysgol, Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Cyfleoedd i Fyfyrwyr, Llais y Myfyrwyr, Dathlu a Chyngor a Chymorth. Esboniodd TM y caiff pob clwb a chymdeithas wybodaeth sy'n manylu ar gostau rhedeg clwb/cymdeithas. Yn rhan o'r gwaith presennol ar adnewyddu'r adeilad, cafwyd sganiad 3D o'r adeilad cyfan, gan edrych ar gynaladwyedd yr adeilad, amcangyfrif faint y byddai'n ei gostio i ailwampio'r cyfleusterau cegin a gwella'r cynnig i fyfyrwyr a bwriadu dod â myfyrwyr Gyrfaoedd Aber ynghyd i wneud grŵp ffocws. O ran Varsity, ceir adolygiad yn ymwneid ag a ydym am barhau i'w wneud. Gwnaiff AE wahodd ymddiriedolwyr i ddathlu.
Cofnodwyd

8. Adroddiad y Swyddogion
Y Llywydd - canolbwyntio ar ymgyrchoedd a gweithdai gwrth-hiliol, Wythnos Fyd-Eang, ar y Bwrdd i drafod bancio'r Brifysgol
Swyddog Cyfleoedd - Clirio'r Cwt Cychod, cyfleusterau - cyfarfodydd misol gyda'r Ganolfan Chwaraeon, clirio cwt y mwncïod, agor y gromen chwaraeon, gofod ffydd - mewn cyfarfodydd gydag ystadau ar sut y gellir newid y gofod i ddiwallu anghenion pawb, fforwm misol yn mynd yn dda. Tiff yn Trio, Gŵyl y Celfyddydau, Reffreshars, SuperTeams heb unrhyw anaf na damwain, gweithio ar hyn o bryd ar fis Hanes LHDTC+, Digwyddiad Codi a Rhoddi, Cod Ymddygiad ar gyfer Grwpiau Myfyrwyr - ynghlwm â'r gweithdrefn gwyno. Polisi a gyflwynwyd i'r Cyf Cyff.
Swyddog Llesiant - yr Wythnos SHAG, 100 o becynnau gaeafol ar gyfer myfyrwyr yn Aber dros y Gaeaf, Canllaw Llesiant a Chanllaw Academaidd, Posteri Gwrth-Sbeicio â mwy o ffocws ar atal troseddwyr, cylch solidariaeth yn rhan o wythnos ymwybyddiaeth o drais rhywiol, cwrddodd ISVA â'r gwasanaethau myfyrwyr. Mis hanes LHDTC+, Mis Hanes y Menywod, Wythnos Arian, ennyn mwy i fynychu'r modiwl cydsyniad. Grŵp Atal Hunanladdiad
Swyddog Materion Academaidd - edrych ar newid asesiadau i gymryd Deallusrwydd Artiffisial a Niwroamrywiaeth i ystyriaeth. Modiwlau hawdd eu hesbonio ar y Bwrdd Du. Tudalen we ar Niwroamrywiaeth, gwasanaethau hygyrchedd ar bwy ydynt, sut i gael diagnosis yng Nghymru.
Swyddog Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA - Daeth dros 500 o fyfyrwyr o ledled Cymru, arddangosfa Ddiwrnod Hawliau'r Gymraeg gan Gymdeithas Yr laith ar gyfer yr wythnos hon. Noson ffilm yn dangos Sŵn, Eisteddfod Dafarn, Sgwrs Wythnosol. Syniadau ar gyfer y Cyf Cyff - caiff yr undeb ei nabod fel Undeb Aberystwyth. Wythnos y Gymraeg yr wythnos hon, Côr Pantycelyn, yr Eisteddfod Ryngolegol. UMCA 50 - Gŵyl 15eg Mehefin i ddathlu UMCA yn 50.
Cofnodwyd

9. **Adroddiad Ariannol** Diweddarodd TM y Bwrdd ar yr heriau i ddod gyda grant bloc y flwyddyn nesaf. Esboniodd TM ei rhesymeg dros y gyllid a dweud y byddai'n ei gyflwyno i'r Bwrdd erbyn y cyfarfod nesaf. Awgrymodd AR i TM ychwanegu categori arall, costau cylchol, sy'n edrych ar feysydd y byddai'n rhaid i'r Brifysgol dalu amdanynt pe baent yn cael eu torri gan yr Undeb, gan ystyried beth all yr Undeb ei ddarparu yn rhatach na'r Brifysgol.
Cofnodwyd

10. **Penodi Ymddiriedolwr Allanol** Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd am y cyfweliad a gafwyd â Daniel Fow, Pennaeth London Operations, Prifysgol Sunderland a gofynnwyd i'r bwrdd gymeradwyo'r penodiad.
    Cymeradwywyd

11. **Cyf Cyff** Rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd ar y Cyf Cyff.
    Cofnodwyd

12. **Ailedrych ar Ragolygon Cyllidebu 23-24** Daw yn ôl yr wythnos nesaf, cyhyd â bod cytundeb i fynd i finws £49k Cofnodwyd

13. **Penodi Archwilwyr** Aeth i dendro, a chael 3 ymateb, yn cynnig i ddewis PJE yn Aberystwyth sydd wedi gweithio gyda ni ac yn deall ein gweithgarwch. Holodd AR TM ynghylch archwilio yn gyffredinol i ystyried peidio â chael yr un archwilydd, i'w adnewyddu'n awtomataidd bob 3 blynedd a chwilio am y mwyaf profiadol.
    Cymeradwywyd a Chofnodwyd

14. **Unrhyw Faterion Eraill sy'n Codi**
    Dim byd

15. **Dyddiad y cyfarfod nesaf 25ain Ebrill 2024**